# JONES, EDWARD ALFRED (1871 - 1943), arbenigwr ar lestri arian

**Enw:** Edward Alfred Jones
**Dyddiad geni:** 1871
**Dyddiad marw:** 1943
**Rhiant:** Mary Jones
**Rhiant:** Thomas Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** arbenigwr ar lestri arian
**Maes gweithgaredd:** Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Mary Auronwy James

Ganwyd 1871 yn un o bedwar o blant Thomas (bu farw 1877) a Mary Jones, tafarn Cross Keys, Llanfyllin, Trefaldwyn. Symudodd y fam i Borthmadog (c. 1895) a Phwllheli (c. 1910). Cafodd y mab addysg breifat cyn ymuno â'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig ond ni ddilynodd y llwybr hwnnw ac ymddiswyddodd o'r fyddin. Magodd ddiddordeb dwfn mewn hen bethau aur ac arian. Dechreuodd ysgrifennu i'r *Cymmrodor* ac *Archaeologia Cambrensis* yn 1904 a bu'n gyfrannwr cyson hyd ddiwedd ei oes i gylchgronau fel y *Burlington Magazine* (e.e. ' Some old silver plate in the possession of Lord Mostyn ', 1907), *Connoisseur* (e.e. ' Welsh goldsmiths ', 1941), *Apollo*, *Athenaeum* ac *Art in America*. *The church plate of the diocese of Bangor* (1906) oedd ei gyfrol gyntaf a dilynwyd hon yn fuan gan nifer o gyfrolau a chatalogau yn ymdrin â thrysorau aur a llestri arian eglwysi Lloegr ac Ynys Manaw, a cholegau Caergrawnt a Rhydychen, y casgliad brenhinol yn Nh r Llundain, a llawer o gasgliadau preifat. Mynychodd amgueddfeydd a chartrefi ar y Cyfandir, Rwsia a Thaleithiau Unedig America a chyhoeddi ffrwyth ei astudiaeth yn *The old English plate of the Emperor of Russia* (1909), *The old silver of American churches* (1909), *Old silver of Europe and America, from early times to the nineteenth century* (1928) a chyfrolau eraill. Gwnaed ef yn Athro cynorthwyol mewn celfyddyd gain ym Mhrifysgol Iâl, T.U.A. a derbyniodd radd M.A. er anrhydedd gan bedair prifysgol (Cymru; 1918); etholwyd ef yn gymrawd nifer o gymdeithasau ysgolheigaidd; derbyniodd ryddfraint dinas Llundain; a gwnaed ef yn aelod o Orsedd y Beirdd. Bu farw yn Llundain 23 Awst 1943 yn fab gweddw.

## Awdur

**Dr Mary Auronwy James**

## Ffynonellau


*Who was who?*

*Y Casglwr pob peth printiedig*, 32, Awst 1987, 18-9

*Mynegeion cofrestri geni, priodi a marw Cymru a Lloegr yr 'Office of Population and Census Studies'*, Gorffennaf - Medi 1871


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 42218438

Wikidata: Q16943691

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu